**Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn**

**5/3/2024**

**Presennol: Y Cynghorwyr** Euros Roberts (Cadeirydd), Huw P Roberts, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Llinos Edwards (Teams), Beryl Hughes Griffiths, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Dewi Wyn Jones(Teams), Heledd Jones, Rhodri Jones

Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Cyhoedd:** neb yn bresennol.

**Ymddiheuriadau:** Alwyn M Roberts

**3018** **Croesawyd** pawb gan y Cadeirydd a ddiolchodd i bawb a fu'n gysylltiedig gyda'r gweithgareddau niferus yn y pentref yn ystod y mis. Rhoddodd groeso arbennig i Heledd Jones a oedd yn dychwelyd ar ôl cyfnod o fethu mynychu'r Cyngor.

**3019** **Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau.

**3020** **Buddiant:** Ym mater Cyfraniadau Cymunedol, derbyniwyd datganiadau o fuddiant cyffredinol gan y Cynghorwyr sydd yn gweithio'n wirfoddol mewn amrywiaeth o glybiau a mudiadau yn yr ardal. Datganodd y Cadeirydd buddiant ym mater Mynwent y Pandy.

**3031** **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 8/2/23.

**3032** **Materion y Clerc**

i. T3: Mae Gethin George TiG/TfW wedi derbyn y gwahoddiad i drafod gyda'r Cynghorydd Alan Jones Evans, Alwyn E Jones ac Euros Roberts (ond nid oes dyddiad wedi ei bennu hyd yn hyn).

i. TG yn y Neuadd: Defnyddiwyd y cyfarpar newydd yn y Neuadd a diolchwyd i Bwyllgor y Neuadd am wneud y trefniadau er mwyn hwyluso Cynghorwyr i allu fynychu'r cyfarfodydd o'u cartref pan fo angen.

ii. Triathlon – cytunodd Arwel Lloyd Jones a Dewi Wyn Jones i gyfarfod Tim Lloyd yn Yr Eryrod 2/5/23 am 4.00pm i drafod trefniadau'r Triathlon ym mis Medi.

iii. Gwaharddau Parcio ar y B4403 yn ymyl Ty'n Ddôl: mae Cyngor Gwynedd yn bwrw ymlaen gyda'r gwaith cyfreithiol.

iv. Adroddodd Alwyn E Jones fod trwsio ffenest lloches bws Ty'n Ddôl mewn llaw. Mae'r Eglwys yng Nghymru yn bwriadu gwneud gwaith diogelu ar yr Eglwys, ac maent yn ymwybodol o'r angen i sicrhau diogelwch y gloch.

v. Diolchwyd i Arwel Morris, Warden Llyn Tegid, am sicrhau mainc i'w osod ar Lwybr Cei.

vi. Awyr Dywyll: derbyniwyd lythyr gan Dani Robertson o Barc Cenedlaethol Eryri y bydd yn cysylltu yn fuan i drafod awyr dywyll yn yr ardal.

**3033** **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Cynghorydd Gwynedd a soniodd am y gwaith glanhau cwlferi sydd wedi digwydd.

Mae Cyngor Gwynedd yn dymuno treialu defnyddio “sachau” hesian cadarn ar gyfer papur a phlastigion yn lle y 2 focs glas ailgylchu. Ar ôl clywed y bu derbyniad ffafriol i’r rhain mewn ardaloedd eraill yng Nghymru, cytunodd y Cynghorwyr i dreialu’r rhain am gyfnod o 3 mis gan ddechrau ym Mehefin. Dywedwyd na fyddant yn malu fel y bocsys glas, ac ni fydd problem o gaeadau yn chwythu ffwrdd gan y bydd velcro cryf yn eu cau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Alan Jones Evans at Gyllideb Cyngor Gwynedd : rhoddwyd y setliad leiaf i gyd gan Lywodraeth Cymru i Gyngor Gwynedd, a hynny oherwydd di-boblogi ac annhegwch yn y drefn dyrannu. Ond er y setliad isel, mae Cyngor Gwynedd wedi cadw’r dreth yr ail isaf yn y gogledd.

**3034 Is-bwyllgorau**

1. **Grwp Datblygu:** Adroddwyd o weithdy Taith y Fenter Iaith lle trafodwyd beth a ellir ei wneud yn ymarferol ac mewn cyfnod byr i gryfhau’r iaith yn y parthau hyn. Bydd cynrychiolaeth o’r Cyngor yn cyfarfod gyda Steffan Smith ar 6/3/24 sydd wedi cynnig sgwrs ar y sefyllfa dai. Cynhelir cyfarfod Fforwm Cymunedau gan Barc Cenedlaethol Eryri ar 20/3/24 ac unwaith eto bydd cynrychiolwyr o’r Cyngor yn mynychu.
2. **Mynwentydd:** mae’r biniau wedi eu gwagio.
3. **Bioamrywiaeth:** Cafwyd ymateb ffafriol i’r cynnig i blannu coed yw ym maes parcio’r fynwent. Cytunwyd i holi ar fb i os oes diddordeb mewn harddu’r ardal wrth ddod mewn i’r pentref.
4. **Nadolig:** Mae’r anfonebau bron i gyd wedi eu derbyn erbyn hyn a rhoddwyd caniatâd i SAC i’w talu. Diolchodd Heledd Jones i bawb am eu cymorth, ond iddi hi roedd y diolch mwyaf am wneud yr holl drefniadau.
5. **Asedau:** bydd yr is-bwyllgor yn cyfarfod cyn mis Ebrill ac apeliwyd ar y Cynghorwyr i anfon unrhyw sylwadau am ddiffygion at Beryl Hughes Griffiths.
6. **Cyllid:** Bydd yr is-bwyllgor yn cyfarfod cyn diwedd Mawrth i gau’r llyfrau ar y flwyddyn ariannol.

**3035 Materion Ariannol**

1. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol a chytunwyd i dalu anfonebau’r mis, sef taliadau dan Gytundeb, a chyfraniad fel a gytunwyd yng nghyfarfod Chwefror i Frecwast y Ffermwyr/Ambiwlans Awyr.

2. Ystyriwyd ceisiadau am nawdd cymunedol a chytunwyd fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Llen y Llannau | £50.00 |
| Eisteddfod Llungwyn | £100.00 |
| Urdd Meirionnydd | £100.00 |
| Aelwyd Penllyn | £100.00 |
| CFFI Glannau Tegid | £100.00 |
| CFfI Meirionnydd | £100.00 |
| Sioe Llan | £100.00 |
| Cantref | £100.00 |
| Teulu Gwalia | £50.00 |
| Gwyl Llan | £100.00 |
| Clwb Pel Droed | £100.00 |

**3036 Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr a soniwyd yn arbennig am yr arbrawf o gynhyrchu'r Cyfnod yn wythnosol am 3 mis. Gwnaethpwyd cais i gynnwys Cofnodion y Cynghorau. Mae'r Cwmni ar hyn o bryd yn ymgynghori ar drafnidiaeth cymunedol i Benllyn.

**3037 Cynllunio:** Nid oedd ceisiadau cynllunio. Derbyniwyd gwybodaeth am gais "cyn cais ffurfiol" am fast 5G yn Nrws y Nant. Disgwylir i'r cais gael ei gyflwyno trwy Parc Cenedlaethol Eryri cyn ymateb yn ffurfiol iddo. Mae'r gwaith ar mast Cwm Croes, Cynllwyd yn mynd yn ei flaen.

**3038 Gohebiaeth:** Trafodwyd

**i.** Croeso Cymraeg i Ardal o Arwyddocâd Ieithyddol Llŷn: tybiwyd fod cynnwys yr e-bost yn cyfeirio ar waith Comisiwn Cymunedau Cymraeg lle mae'r Gymraeg yn iaith gymunedol . Cytunwyd i holi am fwy o fanylion o oblygiadau'r cynllun.

ii. Gwahoddiad i gyfarfod gyda'r Heddlu: Diolchwyd am y gwahoddiad a dywedwyd mai cychwyn mis Mai fyddai'r adeg mwyaf cyfleus.

iii. Llywodraeth Cymru: Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2024. Mae'r trefniadau yn debyg iawn i rhai llynedd. Atgoffwyd y Cynghorwyr fod angen llythyr os yn gwrthod y Lwfans.

iv. Llywodraeth Cymru: Cronfa Coetiroedd Bach – nodwyd ei dderbyn.

v. Llywodraeth Cymru : Enwebiadau ar gyfer anrhydeddau'r Brenin – nodwyd ei dderbyn.

vi. Cynnal Mynwent y Pandy: Edrychwyd yn ffafriol mewn egwyddor ar y cais i gynnal y fynwent, a chytunwyd fod yr un egwyddor yn berthnasol i'r mynwentydd eraill yn y gymuned. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor Mynwentydd wneud arolwg o'r hyn sydd angen ei wneud i sicrhau iechyd a diogelwch contractwyr a fyddai'n gweithio yno. Awgrymwyd yn garedig i Bwyllgor Mynwent y Pandy Eglwys Glanaber i holi'r perchnogion yng Nghaerdydd i sicrhau safonau diogelwch y tir a'r terfynau, cyn bod y Cyngor Cymuned yn dod i benderfyniad ar gymryd at y gwaith o gynnal a chadw.

**3039 Materion lleol y Cynghorwyr:**

Gofynnwyd i'r Clerc ymateb ar ran Cyngor Cymuned Llanuwchllyn i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ffermio cynaliadwy a'i effaith ar yr economi wledig.

Tynnwyd sylw at goeden ar y groesffordd a'i changen yn gwyro dros y fainc; addawodd y Cynghorydd Alan Jones Evans ddwyn y mater i sylw swyddogion Cyngor Gwynedd.

**3040 Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 2/4/24 am 8.00pm yn y Neuadd Bentref (ac ar Teams i'r rhai sy'n methu mynychu).